

Cyfeirnod: IR927

Dyddiad cyhoeddi: 15 Awst 2024

Cynllun busnes Fferm Gilestone

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 19 Gorffennaf 2024, lle gwnaethoch egluro eich bod yn gofyn am gopi o'r cynllun busnes amlinellol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Fferm Gilestone.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus ac ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol, rwyf yn cadw'r wybodaeth hon yn ôl o dan yr eithriad rhag datgelu a ddarperir gan adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r adran yn nodi:

Adran 43(2) Mae gwybodaeth yn wybodaeth esempt os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei chadw).

Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data a fyddai'n rhoi cipolwg ar weithrediad a gweithgareddau trydydd partïon, ac a fyddai'n debygol o niweidio eu buddiannau masnachol. Cafwyd y wybodaeth sydd gennym gan Lywodraeth Cymru, ac yn unol â hynny, ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch eich cais. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod datgelu ar sail rhesymau sy'n cynnwys niwed i'w buddiannau masnachol hefyd.

Mae'r esemptiad o dan adran 43(2) yn esemptiad cymwysedig, ac rwyf wedi ystyried a yw'r niwed angenrheidiol wedi'i sefydlu ac wedi dod i'r casgliad ei fod. Er mwyn cymhwyso'r esemptiad o dan adran 43(2), mae angen ystyried a yw'r budd cyhoeddus o gynnal yr esemptiad yn drech na'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth, ac rwyf wedi ystyried hyn fel a ganlyn:

O blaid datgelu

- Tryloywder ac atebolrwydd wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau – mae sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus mor agored a thryloyw â phosibl o

ran y ffordd y maent yn gweithredu a'r ffordd y gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd.

- Hyrwyddo dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses gwneud penderfyniadau, a sicrhau uniondeb a gwerth am arian yn y trafodion y cytunwyd arnynt gan Llywodraeth Cymru.

Yn erbyn datgelu

- Mae diddordeb cynhenid mewn osgoi'r rhagfarn a fyddai'n codi pe bai'r wybodaeth yn cael ei datgelu a'i defnyddio er mantais i gystadleuwyr.
- Er nad yw'r wybodaeth yn gwbl gyfredol, mae'n sensitif o ran digwyddiadau cyfredol. Er y gallai ei werth i drydydd partïon leihau dros amser, mae'n dal i fod yn berthnasol ar hyn o bryd.
- Mae fframwaith ar waith ar gyfer craffu ar gamau Llywodraeth Cymru drwy broses archwilio statudol, sy'n darparu tryloywder yn fwy effeithiol na datgelu ad hoc. Cyhoeddwyd llythyr gan Archwilio Cymru ar 31 Ionawr 2023 yn dilyn adolygiad o wybodaeth, gan gynnwys y ddogfen y gofynnwyd amdani. Gellir darllen y llythyr [yma](#).
- Mae'n annhebygol y byddai datgelu yn ychwanegu'n sylweddol at ddealltwriaeth y cyhoedd, gan na fyddai'n ddatgeliad o wybodaeth lawn.
- Gallai datgelu'r math hwn o wybodaeth leihau nifer y busnesau sy'n fodlon ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Ar y cyfan, rwy'n ystyried ei bod er budd y cyhoedd yn fwy cyffredinol i beidio â datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd. Yn unol â hynny, cynhelir yr eithriad o dan adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Rwyf hefyd o'r farn bod yr wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn rhinwedd adran 33(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan ei bod yn ymwneud â swyddogaethau archwilio cyhoeddus. Er bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) hawliau mynediad statudol i ddogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arfer llawer o'i swyddogaethau, mae'r hawliau hynny'n gweithredu ar y sail bod y wybodaeth a ddarperir yn cael ei nodi gan yr ACC fel rhywbeth angenrheidiol. Fodd bynnag, mae perfformiad effeithiol swyddogaethau archwilio yn dibynnu nid yn unig ar gael gwybodaeth y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei nodi fel un angenrheidiol ar gyfer archwiliad, ond hefyd ar gydweithrediad parhaus gan y corff archwiliedig – gan gynnwys darparu gwybodaeth a allai fod yn berthnasol yn

wirfoddol – er mwyn hwyluso cynllunio archwiliadau yn effeithiol, er enghraifft. Gallai datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y cam hwn arwain at lai o ddarpariaeth wybodaeth wirfoddol, yn ogystal â gwrthwynebiad tebygol – er enghraifft, drwy gwestiynu a oes gwir angen cael mynediad at y wybodaeth dan sylw.

Felly, byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o amharu ar arfer swyddogaethau'r ACC mewn perthynas ag archwilio, drwy annog cyrff archwiliatedig i beidio â chydweithredu'n rhwydd ag archwilwyr. Mae ymgysylltu â chyrff sy'n archwiliatedig yn rhydd ac yn agored yn hollbwysig er mwyn cynnal prosesau archwilio effeithlon ac effeithiol, gan alluogi ACC i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gallu rhoi cyfrif am y cyllid cyhoeddus a ddyrannwyd iddynt, a bod eu gwaith yn darparu gwerth am arian. Mae hyn yn berthnasol yn arbennig o ran gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol, fel y gofynnwyd amdani yn yr achos hwn.

Mae'r esemptiad hwn hefyd yn ddarostyngedig i'r prawf budd cyhoeddus; ac oherwydd yr ystyriaethau yn erbyn datgelu a nodwyd mewn perthynas â'r eithriad o dan adran 43 uchod, ynghyd â'r niwed tebygol i swyddogaethau archwilio a nodwyd uchod hefyd, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus yn pwyso yn erbyn datgelu, a bod yr esemptiad o dan adran 33 yn cael ei gynnal.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth